


cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Sut mae'ch plentyn yn ymgeisio a chael ei dalu 2017/18

Dylai eich plentyn ymgeisio cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor - nid yw angen cadarnhad o le yn y brifysgol neu'r coleg.




Beth sydd angen i'ch plentyn ei wneud



Beth sydd angen i chi ei wneud



Yr hyn rydym yn ei wneud



Y ffordd gyflymaf a hawsaf i ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr yw ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**. Gall eich plentyn ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr cyn derbyn lle yn y brifysgol neu'r coleg. Gall ymgeisio yn defnyddio ei brif ddewis o gwrs a newid y manylion ar-lein yn hwyrach os oes angen. Gwnewch yn siŵr ei fod yn argraffu, llofnodi a dychwelyd ei ffurflen ddatganiad.




Os yw'ch plentyn yn ymgeisio am gymorth ariannol sy'n ddibynnol ar incwm eich cartref, bydd hefyd angen i chi gofrestru ar **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk** a chwblhau rhan o'r cais. Os ydych chi wedi rhoi manylion i ni o'r blaen, dylech ddefnyddio'r un Cyfeirnod Cwsmer.



Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol a roddoch i ni gyda Chyllid a Thollau EM ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am dystiolaeth neu ragor o wybodaeth i gefnogi'r hyn a ddywedoch wrthym.



Unwaith y bydd y cais wedi ei gwblhau a'i gyflwyno, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth rydym angen, byddwn yn asesu faint all eich plentyn gael ac yn anfon llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrrwyr ato.



Bydd yn mynd â'r llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrrwyr i'w brifysgol neu goleg pan fydd yn cofrestru. Unwaith y bydd y brifysgol neu goleg yn rhoi gwybod i ni ei fod wedi cofrestru, byddwn yn talu unrhyw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhalieth i gyfrif banc eich plentyn mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor. Rydym yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'w brifysgol neu goleg.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/ymarferwyr

 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

